Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Cymdeithas Tai Linc Cymru – L109

Rhagfyr 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adrannau 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78937-884-9
Hawlfraint y Goron 2018

# Proffil

Mae Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ("Linc" neu'r "Gymdeithas") yn Gymdeithas Dai draddodiadol sy'n gweithio yn ardal deg awdurdod lleol yn Ne Cymru ac mae wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, gyda rheolau elusennol.

Mae Linc yn berchen ac yn rheoli 4,470 o gartrefi; mae 210 o'r tai hynny ar gyfer pobl ag anghenion cymorth cartref nyrsio. Mae'r Gymdeithas yn darparu tai i'w rhentu ar lefelau rhent cymdeithasol, canolradd a rhenti'r farchnad ac mae hefyd yn gweithredu cynllun rhanberchenogaeth ac yn rhedeg 7 safle manwerthu. Mae gan Linc ystod o dai ar gyfer pobl ag anghenion cymorth, fel tai gwarchod, tai â chymorth a thai gofal ychwanegol, yn ogystal â chartrefi nyrsio cofrestredig.

Mae Linc yn rhedeg wyth o gynlluniau gofal ychwanegol ar draws Caerdydd, Casnewydd, Blaenau Gwent a Phen-y-bont ar Ogwr, ac un arall ar safle penodol gyda Phen-y-bont ar Ogwr o dan gytundeb partneriaeth â'r Cyngor hwnnw. Mae pum cynllun arall ar y gweill wedi i'r Gymdeithas gael ei phenodi'n ddarparwr gofal ychwanegol a ffefrir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae un o'r datblygiadau hynny ar safle penodol.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2016/17** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 24.6% | 17.7% | dd/g | 21.3% |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 14.3% | 5.7% | dd/g | 6.5% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r Incwm o renti | 1.0% | 1.5% | dd/g | 2.0% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 52% | 43% | dd/g | 74% |
| Geriad | 54% | 54% | 75% | 61% |
| Sicrwydd llog | 229% | 204% | 120% | 172% |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Gymdeithas gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Rhagfyr 2018

**Llywodraethu a Gwasanaethau – Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol – Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.